

**Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English**

**Asesiad o'r Effaith yn erbyn Strategaeth Hamdden 2015 ac Ymlaen.**

Yn 2015 cynhaliodd y Gwasanaeth Hamdden adolygiad o'i swyddogaeth graidd. Cododd yr angen hwn o ofynion corfforaethol i nodi arbedion / effeithlonrwydd, gwella effeithiolrwydd a pherfformiad a chynyddu incwm i gefnogi a chynnal gwaith darparu'r gwasanaeth.

Ynghyd ag ystyried heriau, cyfyngiadau a chyfleoedd yn y dyfodol, nododd yr adolygiad o'r Gwasanaeth Hamdden amcanion a themâu clir a ysgogodd y newidiadau tyngedfennol, gofynnol.

Caiff y bwriad i gau'r cwrs golff ei fesur yn erbyn y meysydd thematig isod, sef amcanion gwella'r strategaeth.

<b>Maes Thematig</b>	<b>Effaith</b>
Gwella'r hyn y mae cwsmeriaid yn canolbwyntio arno a'u boddhad	<b>Niwtral</b> - bydd y bwriad i gau'n cael effaith negyddol ar y rhai a ddefnyddiai'r cwrs golff. Fodd bynnag, mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn y llain ymarfer a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Mae'r llain ymarfer bellach yn diwallu anghenion ei chwsmeriaid o ran y cyfleusterau, y seilwaith a'r oriau agor.
Gwella ymwybyddiaeth fasnachol a meddylfryd i leihau'r ddibyniaeth ar gyllid craidd y Cyngor Sir	<b>Cadarnhaol</b> - roedd angen cymhorthdal o oddeutu £30,000 y flwyddyn ar y cwrs golff oherwydd ei golledion. Nid oedd hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Pe bai'r Cyngor Sir yn penderfynu cael gwared â'r cyfleuster, bydd yn creu arbedion a derbyniadau cyfalaf posibl a gaiff eu neilltuo i wella'n darpariaeth hamdden.
Moderneiddio prosesau i wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pherfformiad	<b>Cadarnhaol</b> – mae'r cwrs golff yn aneffeithlon, yn aneffeithiol a'i berfformiad yn wael, gan arwain at golledion o oddeutu £30,000. Mae'r Cyngor Sir (trwy ei denant) wedi buddsoddi yn y llain ymarfer i wella'r hyn y mae'n ei gynnig a'i pherfformiad.
Gwella cyfleusterau craidd er mwyn bodloni disgwyliadau a gofynion cwsmeriaid yn well	<b>Niwtral</b> - bydd y bwriad i gau'n cael effaith negyddol ar y rhai a ddefnyddiai'r cwrs golff. Fodd bynnag, mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn y llain ymarfer a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Mae'r llain ymarfer bellach yn diwallu anghenion ei chwsmeriaid o ran y cyfleusterau, y seilwaith a'r oriau agor. Pe bai'r Cyngor Sir yn penderfynu cael gwared â'r cyfleuster, bydd yn creu arbedion a derbyniadau cyfalaf posibl a gaiff eu neilltuo i wella'n darpariaeth hamdden.
Gwella iechyd a lles defnyddwyr gwasanaeth	<b>Niwtral</b> - bydd y bwriad i gau'n cael effaith negyddol ar y rhai a ddefnyddiai'r cwrs golff. Fodd bynnag, mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn y llain ymarfer a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Mae'r llain ymarfer bellach yn diwallu anghenion ei chwsmeriaid o ran y cyfleusterau, y seilwaith a'r oriau agor. Pe bai'r Cyngor Sir yn penderfynu cael gwared â'r cyfleuster, bydd yn creu arbedion a derbyniadau cyfalaf posibl a gaiff eu neilltuo i wella'n darpariaeth hamdden